**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

1 Hydref 2025

Annwyl Lywydd,

**Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd**

Trafododd y Pwyllgor eich llythyr ynghylch Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd yn ein cyfarfod ar 24 Medi. Diolch am y cyfle i gyfrannu at y gwaith hwn a'r Ymgynghoriad ar effeithiolrwydd pwyllgorau. Hoffai'r Pwyllgor gynnig yr adborth canlynol:

### Cylch gorchwyl

Rydym yn credu bod cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn taro cydbwysedd da ac yn sicrhau nad yw'r economi gwledig (yr elfen economaidd o ffermio a hefyd economi cymunedau gwledig yn ehangach) yn cael ei wthio o’r neilltu pan drafodir materion economaidd. Rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar bwyllgorau eraill, yn enwedig y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, pan fo'n briodol i'r pwnc dan sylw. Mae hyn hefyd wedi gweithio'n dda ac wedi gwella effaith y Pwyllgor.

### Maint pwyllgorau a'r cworwm

Rydym yn credu bod pwyllgorau chwe aelod yn gweithio'n dda. Wrth feddwl am y trefniadau wyth aelod blaenorol, roedd yr Aelodau’n teimlo nad oedd hyn yn ychwanegu at ansawdd y gwaith craffu. Mae pwyllgorau chwe aelod hefyd yn lleihau nifer yr Aelodau sy'n eistedd ar sawl pwyllgor, sy'n eu galluogi i ganolbwyntio eu sylw ar feysydd polisi penodol. Roeddem hefyd yn teimlo bod y gofynion presennol ynghylch cworwm yn gweithio'n dda a dylid cadw’r rhain.

**Amser cyfarfod wedi'i warchod**

Rydym yn teimlo bod cael diwrnod penodol ar gyfer busnes pwyllgorau yn fuddiol a dylid ei gadw a'i ymestyn os yn bosibl. Ar hyn o bryd mae ein Pwyllgor yn cyfarfod ar ddydd Mercher a dydd Iau; awgrymodd yr Aelodau y gallent ganolbwyntio'n well ar fusnes yng nghyfarfodydd dydd Iau gan fod eu sylw'n aml yn cael ei rannu rhwng busnes y Pwyllgor a pharatoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher.

**Gwaith a gyfeirir at y Pwyllgor, gan gynnwys deddfwriaeth**

Credwn fod angen i bwyllgorau fod mor rhydd â phosibl i osod eu rhaglen waith eu hunain. Gwnaethom drafod y gwahanol rinweddau o gael naill ai pwyllgorau polisi a deddfwriaeth pwrpasol ar wahân neu'r pwyllgorau pwrpas deuol presennol, ond ni ddaethom i gytundeb pendant. Fodd bynnag, cytunwyd bod angen ystyried sicrhau nad yw pwyllgorau’n cael eu gorlethu gan waith, ac yn enwedig Biliau, a gyfeirir atynt gan y Pwyllgor Busnes. Un awgrym a drafodwyd oedd rhoi slotiau cyfarfod ychwanegol i bwyllgorau pan gyfeirir deddfwriaeth atynt er mwyn caniatáu iddynt barhau â'u gwaith polisi yn eu cyfarfodydd rheolaidd ochr yn ochr â'r gwaith biliau yn eu slotiau ychwanegol newydd.

Diolch eto am y cyfle i gyfrannu at y gwaith hwn.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg